

Cyngor Sir Caerfyrddin Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2022-2023

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu gweithgareddau'r Cynghorydd a enwir isod am y cyfnod mis Mai 2022 tan fis Mai 2023 (Blwyddyn y Cyngor). Fe'i darperir er gwybodaeth i etholwyr, ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad yw barn y Cynghorydd ac nid yw'n adlewyrchu barn Cyngor Sir Caerfyrddin o reidrwydd.

Y Cynghorydd: David Thomas	Adran Etholiadol: Penygroes
-----------------------------------	------------------------------------

Rhan 1: Rôl a Chyfrifoldebau
<i>Pwyllgorau'r Cyngor:</i>
Y Cyngor Llawn
Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed
<i>Cofnod Presenoldeb:</i> Cofnod presenoldeb - Cyng. Dai Thomas (llyw.cymru)

Rhan 2: Gweithgareddau Etholaeth
<ul style="list-style-type: none">• Rwy'n cynnal cymhorthfa yn y pafiliwn ym Mhenygroes bob yn ail Ddydd Iau.• Rwy wedi bod yn gweithio gyda Menter Cwm Gwendraeth i ddatblygu'r pafiliwn fel canolfan cymunedol ac mae'n llwyddiannus iawn.• Rwy hefyd wedi gweithio gyda Phwyllgor Neuadd Caerbryn i gael grantiau i wella'r Neuadd a'r ardal chwarae.• Rwy wedi bod yn gweithio gyda grwpiau cymunedol ar "Speedwatch" yn wahanol ardaloedd e.e Heol y Blac a Blaenau.• Rwy hefyd wedi bod yn gweithio am ymestyniad i'r llwybr beics o Landybie i Benygroes.• Ar ben hyn rwy wedi bod yn delio gyda materion sy'n effeithio ar unigolion e.e cynllunio, baw ci, sbwriel, problemau gyda thai cyngor, problemau gyda llygod mawr a.y.b.• Rwy wedi bod yn helpu rhieni Ysgol Blaenau i amddiffyn yr ysgol rhag cau.• Rwy'n cynhyrchu taflen wybodaeth i etholwyr dwywaith y flwyddyn ac yn rhedeg tudalen Facebook (@daithomaspenygroes) gyda newyddion am y Ward.

Rhan 3: Cyrff Llywodraethu Ysgolion		
<i>Rhestr o Gyrff Llywodraethu Ysgolion</i>	<i>Cofnod Presenoldeb</i>	
	<i>Nifer o gyfarfodydd</i>	<i>Canran</i>
Ysgol Penygroes	3	66%
Ysgol Blaenau	4	100%

Rhan 4: Dysgu a Datblygu

- Sesiynau gyda'r Gronfa Bensiwn Dyfed ar wahanol agweddau o fuddsodd.
- Cyrsiau wedi trefnu gan y Cyngor Sir ar bolisi ysgolion, yr amgylchfyd, cynllunio a.y.b.

Rhan 5: Gweithgareddau a Materion Eraill

Rwy bob tro ar gael i ateb ymholiadau ar daithomas@sirgar.gov.uk neu 01269 842151.

Llofnodwyd gan y Cyngorydd: David Thomas

Y Dyddiad: 2/8/2023